



## Cyfanswm cost Aelodau'r Senedd

23 Tachwedd 2022

### Cais am wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 24 Hydref, pan wnaethoch ofyn:

*Could you please inform me what was the average total cost of MS's in 2021 ie (total/60).*

*The totals should include Pay, Pension, Travel, accommodation, staff constituency offices and any other costs*

Mae ein hymateb i'ch cais isod.

### Tâl a Phensiynau

Cost gyfartalog Aelod o'r Senedd (Aelod) yn y flwyddyn ariannol 2020-21 oedd £264,000, ac roedd yn £262,000 yn 2021-22. Mae hyn yn cynnwys y cyfraniadau i gynllun pensiwn yr Aelodau a wneir gan y Comisiwn.

### Teithio, llety a chostau eraill

Cost gyfartalog yr holl hawliadau treuliau ar gyfer 2020-21 oedd £20,426.55, a £21,979.73 ar gyfer 2021-22.

Mae'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau ar gyfer y Chweched Senedd (Rhif Dau) - Mawrth 2021 yn nodi pob un o'r lwfansau sydd ar gael i'r Aelodau.

Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament  
Cardiff Bay  
Cardiff, CF99 1SN  
Ffôn/Tel: 0300 200 6224

E-bost/Email: [Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru](mailto:Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru)  
[Information-request@senedd.wales](mailto:Information-request@senedd.wales)

Gallwch weld dadansoddiad o'r treuliau hyn, sydd i gyd wedi'u cyhoeddi ar y dudalen

### **Lwfansau'r Aelodau.**

I ddod o hyd i'r wybodaeth hon, dilynwch y cyfarwyddiadau hyn:

- i. Dewiswch y flwyddyn ariannol yr hoffech chwilio amdani.
- ii. I ddewis Aelod penodol, cliciwch ar 'DEWIS AELOD' i weld rhestr o Aelodau blaenorol a phresennol, a dewiswch yr Aelod(au) penodol. Os ydych chi am chwilio'r system am yr holl Aelodau, gadewch hwn yn wag.
- iii. I ddewis y math penodol o draul, o dan 'DEWIS MATH O LWFANS', dewiswch 'Teithio, Lwfans Costau Swyddfa' ac ati. Dewiswch 'Toglo pob un' er mwyn dewis pob lwfans.
- iv. Cliciwch 'Chwilio'

Cyhoeddir yr holl hawliadau ar ein system lwfansau dri mis yn ddiweddarach a bydd yn dangos yn y flwyddyn ariannol y mae'r gost yn gysylltiedig â hi. Os ydych chi angen help yn dilyn y cyfarwyddiadau hyn, rhowch wybod i mi.

### **Staff Cymorth**

Cost gyfartalog cyflogau staff cymorth, fesul Aelod, oedd £97,334.75 yn 2020-21, a £76,140.92 yn 2021-22.

Ers mis Ebrill 2019, mae Comisiwn y Senedd wedi cyhoeddi gwariant staffio blynyddol pob Aelod. Mae'r cyhoeddiadau sy'n ymwneud â 2021 ar gael drwy'r lincs canlynol.

**[2020-21-Staffing-en.xlsx \(senedd.wales\)](#)**

**[2021-22-Staffing-en.xlsx \(senedd.wales\)](#)**

Yn gywir

**Buddug Saer**

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**

**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru

Llywodraethu a Sicrwydd

Bae Caerdydd

Caerdydd

CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF